| | |
|---|---|
| Teitl y Swydd: | Cymrawd Ymchwil (Therapi Iaith a Lleferydd) |
| Uned/Ysgol: | Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd |
| Gradd: | 7AB |
| HERA: | CSSHS222 |

**Prif bwrpas y rôl**
Bydd gofyn i chi wneud cyfraniad sylweddol at gyflawni gweithgaredd ymchwil MISLToe yng Nghanolfan Ymchwil Lleferydd, Clyw a Chyfathrebu, ac i gydweithio'n agos gydag ymchwilwyr a chlinigwyr i gefnogi prosiectau parhaus a rhai yn y dyfodol.

Drwy ddefnyddio eich gwybodaeth glinigol a'ch sgiliau ymchwil, byddwch yn cyfrannu at gydlynu a chyflwyno astudiaethau'n effeithiol, gan sicrhau bod targedau'n cael eu cwblhau'n unol ag amcanion y Ganolfan. O dan oruchwyliaeth uwch gydweithwyr, byddwch yn chwarae rhan weithredol yn y gwaith o gyflwyno ymchwil, gan gynnwys dadansoddi a dehongli data, ysgrifennu papurau, a chyfrannu at ddatblygu'r llwybr effaith.

Disgwylir i chi hefyd gefnogi ymgysylltiad proffesiynol ar draws rhanddeiliaid mewnol ac allanol a chyfrannu at baratoi ceisiadau grant newydd, gan wella proffil ymchwil y Ganolfan a chefnogi twf ac arloesedd yn y dyfodol yn y maes hwn.

**Cyfrifoldebau a chyfraniadau allweddol**

- Cynllunio, cydlynu a gweithredu prosiectau ymchwil ar y cyd mewn modd amserol.
- Defnyddio gwybodaeth a phrofiad clinigol arbenigol i ddylunio, gweithredu a chefnogi agweddau hanfodol ar y fethodoleg ymchwil.
- Ymarfer gwneud penderfyniadau annibynnol mewn perthynas â gweithgaredd ymchwil clinigol.
- Defnyddio damcaniaeth ac arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth ynghylch therapi lleferydd ac iaith er mwyn llywio pob agwedd ar y prosiect.
- Sicrhau bod egwyddorion rheoleiddio a moesegol perthnasol yn cael eu cymhwyso, gan gynnwys unrhyw weithdrefnau moeseg a llywodraethu sy'n berthnasol i'r prosiect.
- Datblygu, dylunio a rheoli arferion casglu a dadansoddi data newydd sy'n berthnasol i'r maes yn absenoldeb fframweithiau presennol.

- Asesu, dehongli a gwerthuso data a chanlyniadau ymchwil.
- Cychwyn a chynnal ymgysylltiad parhaus â chynrychiolwyr mewnol ac allanol perthnasol o grwpiau rhanddeiliaid i lywio datblygiad y prosiect.
- Estyn, trawsnewid a chymhwyso gwybodaeth a gafwyd o brosiectau ymchwil i ymchwil pellach a gweithgareddau allanol priodol.
- Ysgrifennu a chyfrannu at gyhoeddiadau neu ledaenu canfyddiadau ymchwil gan ddefnyddio cyfryngau priodol eraill.
- Gwneud cyflwyniadau mewn cynadleddau neu arddangos gwaith mewn digwyddiadau priodol eraill
- Cymryd rhan mewn a datblygu rhwydweithiau allanol, er enghraifft i nodi ffynonellau cyllid, cynhyrchu incwm, cael prosiectau ymgynghori, neu feithrin perthnasoedd ar gyfer gweithgareddau yn y dyfodol.
- Cynnal ac adolygu asesiadau risg a chymryd cyfrifoldeb am iechyd a diogelwch eraill ar dîm y prosiect.
- Paratoi adroddiadau cynnydd ar yr ymchwil o bryd i'w gilydd yn ôl gofynion y cyllidwr at ddibenion adolygu.
- Cyfleu syniadau cymhleth a chysyniadol yn rheolaidd i'r rhai sydd â gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig yn ogystal â chyfoedion gan ddefnyddio sgiliau lefel uchel ac amrywiaeth o gyfryngau
- Arwain a datblygu cynlluniau prosiect i sicrhau darpariaeth effeithiol.
- Lledaenu canfyddiadau ymchwil i wahanol randdeiliaid ac uwch staff y Brifysgol
- Gweithredu fel aelod cyfrifol o'r tîm, gan arwain lle cytunwyd, a datblygu perthnasoedd gwaith cynhyrchiol gydag aelodau eraill o staff.

**Manyleb person**
**Cymwysterau hanfodol / Aelodaethau proffesiynol**

- Gradd israddedig 2:1 neu uwch mewn Therapi Iaith a Lleferydd neu bynciau perthnasol (megis Seicoleg, Addysg neu Ieithyddiaeth)
- PhD (neu bron â'i gwblhau) mewn Iechyd Cyhoeddus / Gwyddorau Iechyd Ymddygiadol / Seicoleg Iechyd neu ddisgyblaeth gysylltiedig (e.e. Nyrsio / Meddygaeth)

**Profiad, gwybodaeth a sgiliau hanfodol**

1. Gwybodaeth am fethodoleg ymchwil glinigol a'r gallu i ddangos bod gennych ystod eang o sgiliau clinigol ac ymchwil.

2. Gwybodaeth am ddulliau ymchwil a dadansoddi sy'n berthnasol i'r astudiaeth.

3. Gwybodaeth am brosesau sy'n gysylltiedig â chasglu data normadol a phrofiad o reoli a storio data sensitif

4. Ymwybyddiaeth o gyd-destun datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu yng Nghymru.

5. Y gallu i gynllunio llwythi gwaith a phrosiectau a rheoli adnoddau'n effeithiol.

6. Y gallu i gyfleu a lledaenu syniadau cymhleth a chysyniadol ar lafar ac yn ysgrifenedig ac wedi'u haddasu ar gyfer cynulleidfaoedd amrywiol.

7. Y gallu i ddatblygu perthnasoedd gwaith cynhyrchiol fel rhan o dîm proffesiynol.

8. Yn gallu dangos lefel uchel o sgiliau cyfathrebu, llythrennedd a rhifedd, a chyfarwydddeb helaeth â Word, Excel, Access, e-bost, porwr gwe.

9. Y gallu i ddefnyddio menter bersonol a chreadigrwydd i ddatrys problemau a wynebir yng nghyd-destun ymchwil.

10. Y gallu i weithio'n hyblyg a datblygu perthnasoedd gwaith cynhyrchiol fel rhan o dîm proffesiynol amlddisgyblaethol.

11. Gwybodaeth am ICH GCP a diogelu data a'u gweithredu.

**Dymunol**

1. Therapydd Lleferydd ac Iaith cofrestredig HCPC.

2. Ymrwymiad amlwg i gydraddoldeb ac amrywiaeth.

3. Hyfforddiant a phrofiad o gasglu data ym maes iechyd (e.e. epidemioleg iechyd cyhoeddus).

**Gofynion sgiliau Cymraeg**

Mae'r Gymraeg yn hanfodol i'n myfyrwyr a'n staff ac mae'n rhan allweddol o'n darpariaeth a'n gwasanaethau. Ar gyfer pob swydd ym Met Caerdydd, mae hyfedredd yn y Gymraeg naill ai'n hanfodol neu'n ddymunol. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y lefelau drwy edrych ar ein llyfryn: Lefelau sgiliau iaith Gymraeg. Os yw sgil wedi'i rhestru fel un hanfodol yn y tabl isod, gwnewch yn siŵr eich bod yn dangos hyn yn eich ffurflen gais ar-lein.

| Lefel iaith a disgrifiwr cyffredinol | Gwrando | Darllen | Siarad | Ysgrifennu |
|---|---|---|---|---|
| **A1 – Dechreuwr**<br>Yn gallu deall a defnyddio dywediadau cyfarwydd bob dydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg. | Dymunol | Dymunol | Dymunol | Dymunol |
| **A2 - Defnyddiwr sylfaenol**<br>Yn gallu delio â gwybodaeth gyffredin a syml a chyfathrebu mewn Cymraeg sylfaenol. | | | | |
| **B1 - Defnyddiwr canolradd**<br>Yn gallu cyfathrebu, i lefel gyfyngedig, yn Gymraeg am bethau sy'n gyfarwydd a/neu'n gysylltiedig â gwaith. | | | | |
| **B2 - Defnyddiwr canolradd uwch**<br>Yn gallu mynegi fy hun yn y Gymraeg ystod o bynciau a deall y rhan fwyaf o sgwrs â siaradwr brodorol. | | | | |
| **C1 - Defnyddiwr rhugl**<br>Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn Gymraeg. | | | | |
| **C2 - Meistrolaeth**<br>Yn gallu cyfathrebu'n rhugl ar faterion cymhleth ac arbenigol yn y Gymraeg. | | | | |

**Gofynion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd**
Mae'r swydd hon yn gofyn am wiriad DBS manylach.

**Gwybodaeth ategol**
Mae'r Brifysgol yn sefydliad deinamig ac efallai y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Ni fwriedir i'r disgrifiad swydd a'r manyleb person hwn fod yn gynhwysfawr.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau ymddygiad moesegol a phroffesiynol uchaf. Felly, disgwylir i bob gweithiwr roi sylw dyledus i effaith eu hymddygiad personol ar y Brifysgol, myfyrwyr, cydweithwyr, rhanddeiliaid busnes a'n cymuned. Rhaid i bob gweithiwr ddangos ei fod yn cydymffurfio â'n Cod Ymddygiad Proffesiynol. Yn ogystal, dylai pob gweithiwr roi sylw arbennig i'w cyfrifoldebau o dan bolisïau a gweithdrefnau Prifysgol Metropolitan Caerdydd.